

Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd nos Lun 18/5/2015
Minutes of the meeting held on Monday evening 18/5/2015

Presennol / Present:

Mr Derek Owen (Cadeirydd/Chair), Mr Elfed Jones, Mrs Marilyn Hughes, Mrs Carys Davies, Mr Dei Owens, Mr Jack Longman

Cynghorwyr Sirol/ County Councillors: Cyng./Cllr Wil Hughes

Yn Bresennol / In Attendance:

Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk), Eira Parry (Cyfieithu / Translation), Mr Richard Foxhall (Horizon)

Ymddiheuriadau / Apologies:

Mrs Julia Dobson, Ms Rose Griffiths, Mr David Livingstone, Cyng./Cllr Richard Jones, Cyng./Cllr Aled M Jones

1 Croeso / Welcome

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Derek Owen a diolchwyd i bawb am fod yn bresennol.
Derek Owen welcomed everyone to the meeting and thanked them for their attendance.

2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Cynllunio (cyffredinol) / *Planning (general)* – Wil Hughes

3 Wylfa Newydd

Croesawyd Mr Richard Foxhall i'r cyfarfod. Roedd yr aelodau yn siomedig nad oedd Mr Alan Raymant wedi bod ar gael ond yn ddiolchgar iawn i Mr Foxhall am fynychu gan obeithio y byddai yn gallu ymateb i bryderon y gymuned.

- Safle Shell, Rhosgoch – oes datblygiad posib? Beth am gyflwr yr A5025 o Gemaes hyd Amlwch? Cafwyd wybod nad oedd unrhyw benderfyniad pendant wedi ei wneud nes bydd adborth yr ymgynghoriad diwethaf wedi ei asesu yn llawn. Mae nifer o wahanol factorau allannol sydd hefyd angen eu ystyried. Ni fydd penderfyniad cyn yr ail gam o'r ymgynghoriad ddiwedd 2015.
- A5025 – mae nifer amlwg o gerbydau yn ymwneud ar datblygiad yn defnyddio'r lon yn barod. Mae angen edrych ar ei wneud yn fwy diogel i deithwyr.
- Bydd 4000 o weithwyr ar unrhyw adeg, faint ohonynt fydd yn lleol, a faint fydd angen llety? Cytuno bod angen cydbwysedd a pheidio llenwi'r gwestai gyda gweithwyr yn ystod yr haf tra bod pentref fel Cemaes yn ddibynnol ar dwristiaeth. Nodwyd bod Horizon yn gweithio gyda Partneriaeth Twristiaeth Mon i weld sut byddai posib cydweithio.
- Gerddi Cestyll – cafwyd cadarnhad bod y cwmni yn gwerthfawrogi'r cyfleuster ac y byddent yn ei warchod ac yn parhau i'w gynnal ai ddatblygu.
- Mynwent y Rhyd – nid yw Horizon angen mwy o dir ac yn bendant ni fydd angen codi'r fynwent. Trafodwyd y posibilrwydd o gael tir ar gyfer mynediad newydd, a chwblhau gwaith traenio angenrheidiol. Unwaith bydd y gwaith tirlunio yn dechrau o ddifrif, bydd cyfle i gyfarfod a thrafod beth all gael i wneud i wella'r sefyllfa.
- Esboniwyd y Rhaglen Cefnogi Cymuned a sut y byddai o fudd i drigolion petaent yn penderfynnu gwethu eu tai. Pwysleiswyd nad oedd y cynllun yma yn statudol ac felly bod Horizon yn cynnig y gefnogaeth o'u gwirfodd.
- Gofynnwyd os oedd Horizon yn deall y pwysau gwaith ychwanegol sydd ar gynghorau lleol tra bod y prosiect yn datblygu. Mae'n cael effaith ar gostau cynnal cynghorau gogledd Mon, ac mae'n bwysig bod Horizon yn deal y goblygiadau. Mae tai gwag a dymchwel adeiladau hefyd yn cael sgil effaith ar y briseb a'r arian sydd ar gael i'r cynghorau.
- Deallwyd bod grwp wedi ei ffurfio rhwng cymdogion ger Capel Bethesda. Mae trafodaethau gyda'r grwp ac nid gyda unigolion. Mae'r tai yma yn unigrwy gan y byddent wedi ei hamgylchynu gan ddatblygiad Wylfa Newydd ar dair ochr. Petai Horizon i brynnu'r tai, ni fyddent yn cael eu dymchwel ond yn hytrach byddent yn cael eu defnyddio ar gyfer staff Horizon e.e. pobl diogelwch safle.
- Bydd Treglele a Chemaes yn dioddef o ganlyniad i ddatblygiad Wylfa Newydd, ac mae'n bwysig bod

adnoddau yn cael eu paratoi er budd y gymuned. Trafodwyd y sefyllfa bresennol gydag adeilad y clwb cymdeithasol. Petai'r gymuned eisiau adeilad o'r fath buasai posib i Horizon ei hadeiladu ond byddai yn gyfrifoldeb ar y gymuned i'w cynnal ai chadw.

- Cafwyd esboniad o sut mae gwastraff niwclear yn cael ei brosesu ar hyn o bryd a sut y bydd yn cael ei brosesu ai storio gan Wylfa Newydd. Bydd angen storio gwastraff ar y safle am gyfnod byr; yn bendant ni fydd yn cael ei gladdu ym Mynydd Parys.
- Cydnabyddwyd bod angen cyfarfod ar y cyd gan gynghorau gogledd Mon ac Mr Alan Raymant yn fuan. Ni fyddai yn gyfarfod i'r cyhoedd ond yn gyfarfod i gynrychiolwyr y cynghorau gael trafod ac ateb eu pryderon. Bydd angen trefnu ar ddyddiad ac amser sy'n gyfleus i Mr Raymant.

Diolchwyd i Mr Richard Foxhall am ei barodrwydd i fynyachu cyfarfodydd y Cyngor Cymuned.

Mr Foxhall was welcomed to the meeting. The members were disappointed that Mr Alan Raymant had not been available to attend but very grateful to Mr Foxhall for attending, hoping that he would be able to respond to some of the community's concerns.

- *Shell Site, Rhosgoch – is there a possible development? What about the state of the A5025 from Cemaes to Amlwch? The meeting was informed that no decision will be made until all the feedback from the consultation had been fully analysed. A number of external factors also need to be considered. No decision will be made before the next round of consultation at the end of 2015.*
- *A5025 – a recognisable number of vehicles linked to the Wylfa Newydd development are already using the road. There is a need to look at improving its safety for all road users.*
- *4000 employees will be on site at any time, how many of them will be local, and how many will require accommodation? It was agreed that there is a need to strike a balance and not to fill all the hotels and guesthouses during the summer when Cemaes is so reliant on tourism. It was noted that Horizon is working with the Anglesey Tourism Partnership to see how best to co-operate.*
- *Cestyll Gardens – confirmation was given that the company acknowledge the facility and that they will protect it and continue to maintain and develop the gardens.*
- *Y Rhyd Cemetery – Horizon already has the land it requires and the cemetery will not be required to be moved. The possibility of a new entrance and completion of drainage works was discussed. Once the landscaping works has commenced in earnest there will be a possibility to look in detail as to what can be done to alleviate current issues.*
- *The Neighbourhood Support Scheme was explained in detail, and how it would be of benefit to residents should they decide to move on. It was emphasised that this was a voluntary scheme on Horizon's part and not a statutory requirement.*
- *It was asked whether Horizon understood the additional work pressure being put upon local councils as the project develops. This is having an effect on the councils' running costs, and it is important that Horizon understands the obligations. Empty properties and demolished houses also effect the council's precept and the funding available to councils.*
- *It was understood that a group had bene formed by residents adjacent to Bethesda Chapel. Discussions are ongoing with the group and not with individuals. These properties are unique in that they will be surrounded on three sides by the Wylfa Newydd development. Should Horizon purchase the properties, they will not be demolished but rather utilised for Horizon staff members eg onsite security.*
- *Tregele and Cemaes will suffer as a result of the development and it is important that facilities and amenities are developed for community benefit. The Sports and Social Club was discussed. Should the community want such a building, there is a possibility that Horizon could build it but it would be the responsibility of the community to manage and maintain it.*
- *How nuclear waste is stored at present, and how it will be stored at Wylfa Newydd was explained. There will be a need to store waste onsite for a short period of time, it will definitely not be going underground at Parys Mountain.*
- *It was acknowledged that there was a need for a joint meeting between the community councils of North Anglesey and Mr Alan Raymant. This would not be a public meeting rather a meeting for council representatives to discuss their concerns. The meeting would be arranged at a time and date to suit Mr Raymant.*

Mr Richard Foxhall was thanked for attending , and for his readiness to attend any of the council's meetings

4 Cofnodion Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynigwyd gan Marilyn Hughes, eiliwyd gan Elfed Jones.

The minutes were accepted as a true record. Proposed by Marilyn Hughes, seconded by Elfed Jones.

5 Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

5.1 Toiledau / Toilets

Deallwyd nad oedd toiledau'r traeth yn barod i'w hagor a bod problemau'n parhau.

Nodwyd bod toiledau'r stryd wedi cymryd £53.40 yn y pythefnos gyntaf. Diolchwyd i Pauline Roberts ac Elfed Jones am eu hamser i reoli'r cyfleuster.

It was understood that the beach toilets are still not ready to be opened and problems continue.

It was noted that the street toilets have taken £53.40 within the first two weeks. Pauline Roberts and Elfed Jones were thanked for their time to manage the facility.

5.2 Ffens yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol / National Trust Fence

Nid oedd diweddariad / *There was no update.*

5.3 'Rumble Stones'

Cafwyd wybod gan y Cyngor Sir nad oeddent am gymryd unrhyw gamau i ddiogelu'r arwyneb. Bydd Cyng. Wil Hughes yn edrych ar y mater gyda'r Cyngor Sir eto.

The County Council have stated that they do not intend to take any action. Cllr Wil Hughes will look into the matter at the Council again.

5.4 Rhyd y Groes

Mae cyfarfod cyhoeddus ar y cyd a Chyngor Tref Amlwch wedi ei drefnu ar gyfer nos Fercher 27/5/2015 yn Neuadd Bentref Cemaes am 7 o'r gloch. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd bod pob aelod yn bresennol.

A public meeting in conjunction with Amlwch Town Council has been arranged for Wednesday 27/5/2015 at the Cemaes Village Hall for 7pm. The importance for all members to be present was emphasised.

6 Cyllid / Finance

Ni chafwyd cyfarfod o'r pwyllgor cyllid gan na fuasai digon o aelodau wedi bod yn bresennol. Trafodwyd prif bwytiau'r agenda gyda'r cyngor llawn –

- Les Cae Chwarae Tregle - cafwyd cynnig o les am bum mlynedd am gost o £200 y flwyddyn. Cytuno derbyn y cynnig.
- Les Cae Pêl Droed - mae'r copïau swyddogol o'r les wedi eu harwyddo gan y cyngor erbyn hyn.
- Taliadau – cymeradwywyd y taliadau canlynol – Eira Parry £81.25; Scottish Power £26.85; Central Garage £22.60; Central Garage £21.20.
- Cytuno bod ROSPA yn cwblhau archwiliad ar gae chwarae Cemaes a chae chwarae Tregle.

The finance committee did not meet as there would not have been a quorum present. The main points on the agenda were discussed with the full council -

- *Tregle Play Area Lease – the Council have bene offered a five year lease at a cost of £200 per annum. It was agreed to accept the offer.*
- *Football Field Lease – the engrossed copies have now been signed by the Council.*
- *The following payments were approved – Eira Parry £81.25; Scottish Power £26.85; Central Garage £22.60; Central Garage £21.20.*
- *It was agreed that ROSPA complete an inspection on both Tregle and Cemaes Play areas.*

7 Cynllunio / Planning

Nid oedd ceisiadau i'w trafod / *There were no applications forward.*

8 Gohebiaeth / Correspondence

8.1 Cafwyd gwahoddiad i gyfarfod gan Un Llais Cymru 20/5/2015 yn ymwneud a pheilonau'r Grid Cenedlaethol. Penodwyd Elfed Jones i gynrychioli'r Cyngor. Cadarnhawyd bod y Cyngor yn parhau i wrthwynebu peilonau ar draws yr Ynys.

An invitation to a One Voice Wales meeting 20/5/2015 regarding the National Grid's Pylons. Elfed Jones was appointed to attend on behalf of the Council. It was confirmed that the Council continues to oppose the plans to erect new pylons across the island.

8.2 Cafwyd gwahoddiad gan y Grid Cenedlaethol i gyfarfod 28/5/2015 yn Llangefni. Bydd Elfed Jones eto yn cynrychioli'r Cyngor.

An invitation to a National Grid meeting 28/5/2015 at Llangefni. Elfed Jones to represent the Council again

8.3 Cafwyd diweddariad gan Richard Parry Jones yn ymwneud a gwerthiant Tir Shell, Rhosgoch.

An update from Richard Parry Jones regarding the sale of the Shell Land, Rhosgoch.

8.4 Mae'r Cyngor Sir wedi cydnabod yr adroddiad strwythurol a gafwyd ar yr Hen Waith Brics.

The County Council have acknowledged the structural survey on the Old Brick Works.

8.5 Mae'r Ombwdsmon wedi cyhoeddi canllawiau newydd yn ymwneud a'r Cod Ymddygiad.

The Ombudsman has published new guidance on the Code of Conduct.

8.6 Daw gwahoddiad i ail-lansiad y gloch llanw ac amser 23/5/2015.

An invitation to the re-launch of the time and tide bell 23/5/2015.

8.7 Cafwyd cais gan Cemaes in Bloom am gefnogaeth i wneud gwaith ar y ffin gyda Maes Padrig. Cytuno mewn egwyddor talu hanner y gost ond gofyn i'r grŵp gael prisiau am y gwaith.

Cemaes in Bloom have requested support to complete some work to the boundary with Maes Padrig. Agreed in principle to pay half the cost, but ask the group to provide quotes for the work.

9 Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

9.1 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Mae canllawiau newydd a gofynion ychwanegol yn ymwneud a chadw cofrestr o ddiddordebau aelodau. Mae'n hanfodol bwysig bod pawb yn datgan unrhyw ddiddordeb.

There is new guidance and additional requirements regarding keeping a register of members' interest. It is essential that everyone declares any interest.

9.2 Arwyddion Llwybr yr Arfordir / Coastal Path Signs

Mae'r Cyngor Sir am ganiatâd i osod arwyddion y llwybr yn y palmant mewn rhan o'r pentref. Pawb yn hapus iddynt wneud hynny.

The County Council wish for approval to install way markers in the pavement in a part of the village. All present were happy for them to do so.

9.3 Arwyddion Twristiaeth / Tourism Signs

Nid oes gan y Cyngor Sir arian tuag at y prosiect ar hyn o bryd gan fod prosiectau eraill wedi gorwario. Bydd y sefyllfa yn cael ei ail asesu ym mis Mehefin.

The County Council have no funding for the project at present as other projects are over spent. The situation will be re-assessed in June.

9.4 Gefeillio Posib / Possible Twinning

Mae Elfed Jones wedi bod mewn cysylltiad â chymuned Rhoose yn ne Cymru (y pentref mwyaf deheuol) i weld a fuasai diddordeb efallai gefeillio a Chemaes (y pentref mwyaf gogleddol). Nid oes Cyngor Cymuned yno ar hyn o bryd i efeillio a hwy.

Elfed Jones has been in contact with the community of Rhoose in South Wales (the most southern community) to see if they would be interested in twinning with Cemaes (the most northerly). There is no community council there at present to twin with.

9.5 Pont ger Gwaith Brics / Bridge by the Brick Works

Mae pont angen peth gwaith i'w ddiogelu. Roedd yr aelodau yn sicr ei fod yn llwybr cyhoeddus, ac yn rhan o gyfrifoldeb ardal Mechell.

There is a bridge requiring some work to make safe. Members were sure that it was part of a public footpath and that its responsibility belonged to Mechell.

9.6 Harbwr / Harbour

Cafwyd llythyr gan Mr D Williams yn atgoffa'r Cyngor bod angen asesu'r angen i fod yn codi ffioedd masnachol yn ogystal â ffioedd preswyl i ddefnyddwyr yr harbwr. Penderfynwyd anfon copi o'r llythyr at Gadeirydd Pwyllgor yr Harbwr a gofyn i'r Pwyllgor drafod a chytuno ar y mater ac adrodd yn ôl i'r Cyngor erbyn y cyfarfod nesaf.

A letter was received from Mr D Williams reminding the Council that the need for commercial and residential mooring fees was due for re-assessment. It was agreed to send a copy of the letter to the Chair of the Harbour Committee and ask the committee to discuss and agree on the matter, reporting back to the Council at the next meeting.

9.7 Cyfarfod Agored / Open Meeting

Trafodwyd yr angen am gyfarfod cymunedol, a chytuno ei fod yn gyfle da i glywed gan grwpiau cymunedol am eu gweithgareddau a'u llwyddiannau drwy'r flwyddyn. Cytuno na fydd cwestiynau o'r llawr gan nad oedd yn deg ar yr aelodau. Mae angen i unrhyw gwestiynau i'r Cyngor ddod drwy law'r clerig o flaen llaw er mwyn sicrhau bod y wybodaeth berthnasol ar gael. Cytuno cynnal y cyfarfod nos Lun Mehefin 15 yn Neuadd y Pentref am 7.30 o'r gloch.

The need for a community meeting was discussed, and it was agreed that it was an opportunity to hear from community groups about their projects and successes. It was agreed not to allow questions from the floor as it was unfair for the members. Any questions to the Council should be directed via the Clerk beforehand to ensure that the relevant information is available. It was agreed to hold the meeting on Monday 15th June at the Village Hall at 7.30pm

9.8 Absenoldebau / Absenteeism

Nodwyd bod rhai aelodau yn colli cynifer o gyfarfodydd. Atgoffwyd aelodau o'r rheol chwe mis, ac nad oedd ymddiheuriad yn ddigonol.

It was noted that some members miss a number of meetings. All members were reminded of the six month rule, and that an apology was not sufficient.

10 Dyddiad y Cyfarfodydd Nesaf / Date of Next Meetings

10.1 Bydd cyfarfod ar y cyd a chyngor Tref Amlwch i drafod Cais Rhyd y Groes 27/5/2015 am 7 o'r gloch yn y Neuadd Bentref.

A joint meeting with Amlwch Town Council to discuss the Rhyd y Groes Application will take place 27/5/2015 at 7pm at the Village Hall.

10.2 Bydd y cyfarfod llawn nesaf nos Lun Mehefin 15, 2015, am 6.30 o'r gloch yn y Neuadd Bentref i'w ddilyn gan y Cyfarfod Blynyddol am 7.30.

The next full council meeting will be on Monday evening June 15, 2015 at the Village Hall for 6.30, followed by the Annual Meeting at 7.30pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 o'r gloch. / *The meeting closed at 9.20pm.*

CET5/2015